

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Adroddiad Blynyddol 2011–2012



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

www.cynulliadcymru.org

gwybodaeth@cymru.gov.uk

archebu@cymru.gov.uk

Ffôn: 0845 010 5500

Cymerwch ran ar Facebook, YouTube, Twitter a Flickr.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Adroddiad Blynyddol 2011–2012



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Rhagair y Llywydd



Fel Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n bleser mawr ysgrifennu'r rhagair hwn i adroddiad blynyddol sy'n edrych yn ôl ar ein llwyddiannau yn ystod blwyddyn gyntaf y Pedwerydd Cynulliad. Hoffwn ddechrau drwy ddweud ei bod yn anrhydedd ac yn fraint cael gwasanaethu pobl Cymru yn y swydd bwysig hon. Yn enwedig, hoffwn ddiolch i bawb ledled Cymru y cwrddais â hwy y llynedd, boed hynny pan wnaethoch fy nghroesawu i gyfarfod eich cyngor ysgol, pan ddaethoch i ddigwyddiad a drefnwyd gan y Cynulliad, neu pan fu ichi gwrdd â mi ar fws allgymorth y Cynulliad.

Mae deall anghenion cymunedau ledled Cymru, a chynyddu cyfranogiad yn y gwaith a wnawn wrth ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif a gwneud deddfau i Gymru, yn ddau amcan strategol craidd i mi fel Llywydd. Mae'n hollbwysig ein bod yn ennyn ffydd a brwdfrydedd pobl Cymru o ran datganoli. Dyna pam y bûm yn ymweld â gwahanol gymunedau, prosiectau, ysgolion a sioeau amaethyddol ledled Cymru i glywed yr hyn sydd gennych i'w ddweud. Rwyf hefyd wedi manteisio ar y cyfleoedd hyn i hybu'r gwaith yr ydym eisoes yn ei wneud, yn enwedig yng nghyswllt ein system ddeisebu, ac mae'r cyfreithiau cyntaf sy'n deillio o'r deisebau a gyflwynwyd gan unigolion a sefydliadau yn dechrau ymddangos yn awr.

Er enghraifft, codir tâl bellach am fagiâu plastig, ac mae'r Llywodraeth newydd gyhoeddi Papur Gwyn ar greu llwybrau beicio diogelach ledled Cymru; maent ill dau wedi deillio o syniadau arloesol a gyflwynwyd ar ffurf deisebau i'r Cynulliad.

Rwyf wedi arwain cyfres o seminarau mewn gwahanol rannau o'r wlad i drafod rôl menywod mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Y diweddgo i hyn fydd cynhadledd genedlaethol yn yr hydref eleni. Mae gennym hanes da o ran cynrychiolaeth y rhywiau yma yn y Cynulliad, ond, pan edrychwch ar ystafelloedd bwrdd Cymru a meysydd eraill ym mywyd cyhoeddus, gwelwch nad yw'r ffigurau mor galonogol. Gobeithiaf y bydd y seminarau hyn yn annog rhagor o ferched yng Nghymru i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus ac yn ysgogi newidiadau mawr.

Rwyf wedi gwneud newidiadau mawr i'r ffordd yr ydym yn ymgymryd â busnes yn y Senedd. Mae hyn wedi arwain at fwy o ddeddfwriaeth o'r meinciau cefn a dadleuon sy'n adlewyrchu dymuniadau amrywiol gymunedau a grwpiau buddiant ledled Cymru.

Hyd yma, cafwyd pedwar darn o ddeddfwriaeth arfaethedig gan Aelodau'r Cynulliad, a bydd tri ohonynt yn mynd ymlaen i'r Cyfnod Biliau. Felly, cafwyd mwy o ddeddfwriaeth o'r fath eisoes nag a gafwyd drwy gydol y Trydydd Cynulliad. Mae gennym ddeddfau arfaethedig newydd a fyddai'n darparu ar gyfer gofal parhaus i'n hoedolion mwyaf bregus, a rheoleiddio gwell ar gyfer parciau carafannau; mae deddf arfaethedig hefyd a fyddai'n galluogi pobl i adennill costau meddygol a dalwyd o ganlyniad i gyflyrau sy'n gysylltiedig ag asbestos.

Ar ôl i bwyllgor graffu arno, mae'r Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol wedi cael ei basio gan y Cynulliad. Hwn yw'r Bil cyntaf y mae'r Cynulliad wedi'i basio ers iddo gael pwerau deddfu ehangach, ac mae'n parhau i graffu ar ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru ynghylch safonau ysgolion a hylendid bwyd.

Bu'n flwyddyn brysur a chynhyrchiol. Yn olaf, hoffwn ddiolch i bob aelod o staff y Cynulliad, sy'n gweithio'n ddiflino y tu ôl i'r llenni i sicrhau bod popeth ar gael i'r Aelodau fel y gallant ymgymryd â'u gwaith pwysig iawn.

Rosemary Butler AC

Y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad

Cyflwyniad gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad



Bu blwyddyn gyntaf y Pedwerydd Cynulliad yn flwyddyn arall o newid a phontio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, gan fod gennym Lywydd a Dirprwy Lywydd newydd, 23 Aelod Cynulliad newydd ac, wrth gwrs, bwerau deddfu ehangach.

Drwy gael y pwerau ehangach hyn, mae'r sefydliad wedi dod yn hyd yn oed yn fwy o ganolbwynt i fywyd dinesig a chyhoeddus Cymru. Law yn llaw â hynny daw'r cyfrifoldeb a'r pwysau sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaeth seneddol o'r radd flaenaf, sef gwasanaeth sy'n galluogi'r 60 Aelod Cynulliad i gyflawni eu rolau gan gyrraedd safon a fydd yn gwneud i bobl Cymru ymfalchïo yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Bu hefyd yn flwyddyn pan wnaethom newid yn sylweddol y ffordd y mae busnes yn gweithredu, drwy waith y Cyfarfod Llawn a strwythurau'r pwyllgorau.

Yn benodol, rydym wedi cyflwyno strwythur newydd i'r pwyllgorau sydd, yn ein barn ni, yn cryfhau'r gwaith craffu a wneir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r strwythur yn cynnwys pum pwyllgor sydd â rôl ddeuol, gan eu bod yn ystyried polisi a deddfwriaeth.

Golyga hyn y gall Aelodau unigol feithrin gwybodaeth fwy manwl am bynciau, y gallant wedyn fanteisio arni wrth graffu ar ddeddfwriaeth ac ar bolisi'r Llywodraeth.

Hoffem hefyd ei gwneud yn haws i bobl Cymru ymgysylltu â thrafodion y Cynulliad, a sicrhau y gall sefydliadau llai gymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad fel ei fod yn adlewyrchu buddiannau ac anghenion pleidleiswyr Cymru yn well.

Ar ôl y gwaith craffu trwyadl a wnaeth Pwyllgor Cyllid y Cynulliad ar strategaeth y Comisiwn ynghylch y gyllideb, cytunodd y Comisiwn ag argymhellion y Pwyllgor i weithredu'r strategaeth ynghylch y gyllideb dros dair blynedd. Er mwyn cyflawni hyn, gwnaethom lwyddo i wneud £100,000 yn rhagor o arbedion y flwyddyn ariannol hon. Y nod sydd wrth wraidd y strategaeth ynghylch y gyllideb yw darparu gwasanaeth seneddol o'r radd flaenaf a fydd yn cyflawni dros bobl Cymru yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

Rydym ni oll yng Nghomisiwn y Cynulliad yma i wasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol, er mwyn helpu i sicrhau ei fod yn sefydliad a deddfwrfra ddemocrataidd gref, hygyrch a blaengar. Rwy'n ddiolchgar i bawb sy'n gweithio yma am eu cyfraniad a'u hymrwymiad dros y flwyddyn ddiwethaf, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda hwy i gyflawni uchelgeisiau'r Comisiwn yn ystod gweddill y Pedwerydd Cynulliad.

Claire Clancy

Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad

Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i'w helpu i fod yn sefydliad a deddfwrfa ddemocrataidd gref, hygyrch a blaengar sy'n cyflawni'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru. Ei rôl yw darparu'r staff, yr eiddo a'r gwasanaethau y mae eu hangen i gyflawni'r rôl hon.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod Cynulliad. Enwebir un Aelod o bob un o'r pedair plaid a gynrychiolir yn y Cynulliad.



Angela Burns AC (Ceidwadwyr Cymreig)

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am y gyllideb, llywodraethu, gan gynnwys aelodaeth y Pwyllgor Archwilio, a chysylltiadau â'r Bwrdd Taliadau. Mae Angela yn gyfrifol hefyd am wella gwasanaethau i Aelodau'r Cynulliad, cymorth ar gyflogaeth a datblygu proffesiynol ar gyfer Aelodau a'u staff.



Peter Black AC (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am TGCh, darlledu ac e-ddemocratiaeth, ystâd y Cynulliad, cyfleusterau a chynaliadwyedd. Peter yw'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am gyflogi staff y Cynulliad.



Sandy Mewies AC (Llafur Cymru)

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, cyswllt cyntaf, arlwy a diogelwch. Mae hefyd yn gyfrifol am swyddogaethau statudol y Comisiwn mewn perthynas â chydaddoldeb a rhyddid gwybodaeth.



Rhodri Glyn Thomas AC (Plaid Cymru)

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am ymgysylltu a chyfathrebu â'r dinesydd ac allgymorth cenedlaethol a rhyngwladol. Mae hefyd yn gyfrifol am swyddogaethau a pholisi'r Comisiwn mewn perthynas â'r Gymraeg.

Cynghorwyr annibynnol i'r Comisiwn

Mair Barnes

Mae Mair Barnes yn cynghori ac yn mentora nifer o gyfarwyddwyr byrddau ar draws amrywiaeth o sectorau, ac mae hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol i fusnes byd-eang. Mae'n gyn Gadeirydd i Vantios ccc ac yn gyn Reolwr Gyfarwyddwr ar Woolworths ccc. Bu'n gyfarwyddwr anweithredol yn yr Adran Masnach a Diwydiant ac yn Swyddfa'r Cabinet.

Richard Calvert

Ailymunodd Richard Calvert â'r Adran Datblygu Rhyngwladol ym mis Awst 2009 yn Gyfarwyddwr Cyffredinol dros Gyllid a Pherfformiad Corfforaethol, ar ôl dwy flynedd a hanner gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd, lle roedd yn Gyfarwyddwr Strategaeth ac Adnoddau. Rôl ddiwethaf Richard yn yr Adran Datblygu Rhyngwladol, cyn symud at yr Asiantaeth Safonau Bwyd, oedd Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad Corfforaethol. Mae Richard yn Gyfrifydd Rheoli cymwysedig a bu mewn nifer o swyddi anweithredol yn y sector cyhoeddus.

Tim Knighton

Ar hyn o bryd, mae Tim Knighton yn Gyfarwyddwr Darparu Atebion Busnes yn Nhŷ'r Cwmnïau. Cyn ymuno â Thŷ'r Cwmnïau yn 2007 yn Gyfarwyddwr Cyllid, treuliodd Tim 10 mlynedd gyda Tesco ccc mewn amryw o swyddi cyllid gwahanol, a chyn gadael roedd yn gyfrifol am yr ochr cydwasanaethau yn y DU. Cyn hyn roedd yn Gyfarwyddwr Gweithredol yn Goldman Sachs yn Is-adran Marchnadoedd Cyfalaf y cwmni.

Yr Athro Robert Pickard

Bu'r Athro Robert Pickard mewn nifer fawr o swyddi cyhoeddus, a bu nifer ohonynt ym maes iechyd a lles. Ymysg ei benodiadau presennol eraill, mae'n Gymrawd yng Nghymdeithas Frenhinol Meddygaeth. Mae ei gefndir ym maes gwyddoniaeth.

Cyfarfu'r Comisiwn wyth gwaith yn 2011-12. Mae manylion yr Aelodau a fynychwyd isod:

Aelod	Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd 2011-12
Rosemary Butler AC (Cadeirydd)	8
Angela Burns AC	8
Peter Black AC	8
Sandy Mewies AC	8
Rhodri Glyn Thomas AC	7

Cynulliad sy'n addas ar gyfer y dyfodol

Roedd hanner cyntaf 2011 yn gyfnod hynod brysur i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn rhaid i'r Cynulliad fod yn barod ar gyfer canlyniad refferendwm ar bwerau deddfwriaethol ychwanegol; roedd yn rhaid i drefniadau fod ar waith ar gyfer diddymu'r Trydydd Cynulliad; ac roedd trefniadau cydamserol yn mynd rhagddynt i groesawu Aelodau newydd i'r Cynulliad ar ôl yr etholiad ar 5 Mai. Ar ben hynny, roedd y Cynulliad yn paratoi ar gyfer croesawu Ei Mawrhydi y Frenhines, a fyddai'n agor y Pedwerydd Cynulliad yn swyddogol ym mis Mehefin.

Dwyn y Trydydd Cynulliad i ben

Ym mis Mawrth 2011, pleidleisiodd pobl Cymru o blaid rhoi pwerau deddfu ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn refferendwm. O ganlyniad, nid oes yn rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ofyn am ganiatâd San Steffan cyn gwneud deddfau mewn perthynas ag ysgolion, ysbytai a'r 20 maes datganoledig arall y gallai eisoes ddeddfu ynddynt.

Ar ôl y refferendwm, cymeradwyodd y Cynulliad Orchymyn a ddaeth â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru i rym ar ôl yr etholiad ar 5 Mai.

Ar ôl y refferendwm ar 5 Mawrth, cafwyd dau gyfle arall i bobl Cymru bleidleisio yn 2011. Cynhaliwyd etholiad y Cynulliad ar 5 Mai, ar yr un diwrnod â'r refferendwm ar y system bleidleisio ar gyfer etholiadau San Steffan. I sicrhau bod pobl yn gwybod am y cyfleoedd i bleidleisio, roedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi cynnal ymgyrch Pleidleisiwch 2011, a oedd wedi'i chynllunio i roi gwybodaeth ddiuedd ac amhleidiol am oblygiadau'r refferendwm ac etholiad y Cynulliad i'r cyhoedd yng Nghymru.

Digwyddodd yr holl waith mewn perthynas â chanlyniad y refferendwm ar yr un pryd â pharatoadau ar gyfer etholiad y Cynulliad ym mis Mai, a oedd yn wahanol iawn i etholiadau blaenorol. O'r blaen, roedd Aelodau'r Cynulliad wedi aros yn eu swyddi tan y noson cyn yr etholiad. Fodd bynnag, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, daeth y Trydydd Cynulliad i ben am hanner nos ar 31 Mawrth 2011, pan ddiddymwyd y Cynulliad am bedair wythnos.

Felly, peidiodd Aelodau'r Cynulliad â bod yn Aelodau ar ddechrau cyfnod y diddymiad, a oedd yn sicrhau y byddai'r rheini a oedd yn sefyll i gael eu hailethol yn cystadlu ar yr un sail ag ymgeiswyr eraill yn ystod cyfnod ymgyrchu'r etholiad.

Roedd gofyn am gynllunio manwl ar gyfer y dull gweithredu newydd hwn, yn enwedig i sicrhau yr aethpwyd i'r afael â'r goblygiadau ymarferol i'r Aelodau. Roedd angen i Aelodau'r Cynulliad fod wedi paratoi ar gyfer y ffaith na fyddent yn gallu defnyddio'u swyddfeydd ar ystâd y Cynulliad yn ystod y diddymiad; y byddai eu mynediad diogelwch i'r adeilad yn cael ei atal; ac y byddai angen iddynt wneud trefniadau arbennig ynghylch defnyddio offer TGCh y Cynulliad.

Llwyddwyd i ddwyn y Trydydd Cynulliad i ben yn effeithiol drwy ymgyngori'n helaeth â'r Aelodau a'u staff cyn y diddymiad, i sicrhau nad oedd effaith andwyol ar eu gwaith ar ran eu hetholwyr yn ystod y cyfnod hwn.

Paratoi ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad

Ar yr un pryd â'r gwaith i ddwyn y Trydydd Cynulliad i ben, roedd gwaith cynllunio manwl yn mynd rhagddo i sicrhau y gallai Aelodau newydd a'r Aelodau a ailetholwyd ddechrau ar eu gwaith yn syth ar ôl iddynt dyngu llw yn Aelodau ar ôl etholiad y Cynulliad ar 5 Mai.

Rhodddwyd proses ymsefydlu fanwl ar waith ar gyfer pob Aelod Cynulliad a etholwyd yn ddiweddar. Elfen allweddol oedd rhoi gwybodaeth frifio fanwl, wedi'i chyflwyno'n dda, i'r Aelodau, a ddisbarthwyd yn fuan ac a baratowyd drwy ymgynghori'n agos â staff o'r pleidiau.

Roedd profiad y gorffennol wedi awgrymu y gallai materion yn ymwneud â swyddfeydd a thechnoleg ar ôl yr etholiad beri heriau logistaidd, o bosibl, yn enwedig o ystyried ei bod yn debygol y byddai cyfran uchel o'r Aelodau yn Aelodau newydd. Fodd bynnag, llwyddodd ymagwedd gefnogol a hyblyg staff y Cynulliad a chontractwyr i sicrhau bod y broses o ymdrin â'r agweddau hyn mor ddiraffferth â phosibl, a ganiataodd i'r Aelodau ddechrau ar eu gwaith heb oedi.

Roedd staff y Cynulliad hefyd wedi gwirfoddoli i fod yn dywyswyr i Aelodau newydd neu Aelodau a ailetholwyd, gan eu croesawu a rhoi cymorth iddynt yn ystod y dyddiau dwys ar y cychwyn. Gwelwyd bod cael un aelod penodol o staff y Cynulliad i fod yn bwynt cyswllt ar gyfer pob ymholiad yn ffordd ddefnyddiol o helpu'r Aelodau i ymgartrefu yn eu rôl.

Roedd yr adborth gan yr Aelodau am y trefniadau ymsefydlu yn gadarnhaol. Fel rhan o ymrwymiad parhaus i wella gweithdrefnau, mae'r Cynulliad hefyd wedi comisiynu Cymdeithas Hansard i wneud gwaith ymchwil annibynnol a fydd yn rhoi darlun trylwyr o brofiadau Aelodau newydd y Cynulliad ym mlwyddyn gyntaf eu swydd.

Bydd hyn, ynghyd ag adborth arall a gasglwyd, yn cael ei ddefnyddio i lywio cynlluniau ar gyfer y Pumed Cynulliad. Ar ôl yr etholiad, canfuwyd bod dau Aelod Cynulliad newydd yn anghymwys i fod yn y swydd oherwydd eu bod yn aelodau o gyrff a restrir yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwys) 2010. Golygai hyn eu bod yn anghymwys i gael eu hethol, sef mater a ddaeth i'r amlwg ar ôl iddynt dyngu llw yn Aelodau.

Roedd yr Aelodau hyn, sef John Dixon ac Aled Roberts, ill dau yn Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru a etholwyd ar restrau rhanbarthol. Roedd gan y Cynulliad y pŵer i ddiystyru'r ffaith eu bod yn anghymwys, ac, ar ôl ystyried adroddiad a luniwyd gan Gerard Elias QC, cytunodd y byddai'n gweithredu'r pŵer hwnnw yn achos Aled Roberts. Daeth Eluned Parrott, yr ymgeisydd nesaf ar restr ranbarthol y Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, i swydd wag John Dixon.

Dechrau'r Pedwerydd Cynulliad

Ar ôl i'r Aelodau dyngu llw, un o'r dyletswyddau cyntaf yng nghyfarfod cyntaf y Pedwerydd Cynulliad, ar 11 Mai 2011, oedd ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd newydd.

Etholwyd Rosemary Butler AC yn Llywydd, ac etholwyd David Melding AC yn Ddirprwy Lywydd.

Ar ôl y pleidleisiau hyn, enwebwyd Carwyn Jones AC yn Brif Weinidog i arwain y Llywodraeth Lafur newydd. Anfonwyd yr enwebiad mewn e-bost at Ei Mawrhydi y Frenhines, sy'n gwneud y penodiad. Hefyd, talodd yr Aelodau deyrnged i'r diweddar Brynle Williams, cyn Aelod Gogledd Cymru y Ceidwadwyr Cymreig, a fu farw ym mis Mawrth 2011.

Sefydlwyd Pwyllgor Busnes y Cynulliad yn ffurfiol ar 18 Mai 2011, ac ailddechreuodd busnes y Cyfarfod Llawn yn fuan wedi hynny. Penodwyd pedwar Comisiynydd newydd ar 25 Mai 2011. Rhannwyd portffolios y Comisiynwyr rhwng Angela Burns AC (Ceidwadwyr Cymreig), Peter Black AC (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru), Sandy Mewies AC (Llafur Cymru) a Rhodri Glyn Thomas AC (Plaid Cymru).

Er nad yw'r Dirprwy Lywydd yn aelod ffurfiol o'r Comisiwn, cytunwyd y byddai David Melding AC yn cefnogi'r Comisiwn drwy ganolbwyntio ar y Pierhead fel canolfan i'r Cynulliad ar gyfer datblygu a chynnal dadleuon, ac fel lleoliad Canolfan Llywodraethiant Cymru yn y dyfodol.

Blaenoriaethau'r Comisiwn, fel y'u hamlinellir yn strategaeth y Pedwerydd Cynulliad, yw darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf i'r Cynulliad, ymgysylltu'n effeithiol â phobl Cymru, hyrwyddo Cymru a defnyddio ein hadnoddau'n ddoeth.

Cafodd y strategaeth hon ei llywio gan sylwadau ac adborth gan yr Aelodau a'r pleidiau. Mae wedi'i seilio hefyd ar gyfrifoldebau corfforaethol a chynrychioliadol y Comisiwn.

Er mwyn rhoi'r strategaeth ar waith yn llwyddiannus, roedd yn flaenoriaeth i'r Comisiwn gytuno ar ei gyllideb ar gyfer 2012-13 a'i gyllideb ddangosol ar gyfer 2013-14. Roedd y gwaith cynllunio a lywiodd y strategaeth ynghylch y gyllideb yn cynnwys ystyried yr angen i weithredu mewn hinsawdd o wariant pwylllog yn y sector cyhoeddus, gan ymateb ar yr un pryd i'r ffydd a ddangoswyd gan etholwyr drwy roi pwerau deddfu ehangach i'r Cynulliad.

Mae sicrhau gwerth am arian yng nghyswllt pob un o'r gwasanaethau a ddarperir wrth wraidd strategaeth y Comisiwn. Ar yr un pryd, rhaid iddo gydymffurfio â'i ddyletswyddau cyfansoddiadol a chorfforaethol o ran sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad bopeth sydd ei angen arnynt i gyflawni eu rolau o graffu, deddfu, a chynrychioli ar ran pobl Cymru.

Ar ben hynny, bydd y Cynulliad yn parhau i sicrhau bod gan bobl Cymru lawer mwy o gyfleoedd i ddod i ddeall y Cynulliad a'i waith yn well. Nod allweddol sydd gan y Comisiwn yw sicrhau bod mwy o bobl yn ymgysylltu â gwaith pwyllgorau'r Cynulliad o ddeddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Ymysg blaenoriaethau eraill y Pedwerydd Cynulliad a oedd i'w cyflawni ar unwaith oedd gwella gwasanaethau TGCh y Comisiwn, cyflwyno Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol), a chytuno ar Gynllun Cydraddoldeb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2012-16.





Yr Agoriad Brenhinol

Yn unol â'r traddodiad a oedd wedi'i sefydlu, daeth Ei Mawrhydi y Frenhines i agoriad swyddogol y Pedwerydd Cynulliad ar 7 Mehefin 2011, a hynny am y pedwerydd gwaith er 1999.

I nodi arwyddocâd y digwyddiad hwn, ar noswyl yr Agoriad Brenhinol, daeth amrywiol grefyddau, diwylliannau a chymunedau o wahanol rannau o Gymru ynghyd yng Ngwynnos y Byrlysg yng Nghanolfan y Mileniwm. Roedd hon yn seremoni amlgrefyddol a nododd amrywiaeth ddiwylliannol Cymru, ac a alwodd am ddealltwriaeth well rhwng pob rhan o gymdeithas ledled y wlad.

Fore dydd Mawrth 7 Mehefin 2011, bu Ei Mawrhydi y Frenhines yn annerch Aelodau'r Cynulliad a chynrychiolwyr cymunedau o wahanol rannau o Gymru yn y Senedd i nodi agoriad swyddogol y Pedwerydd Cynulliad. Roedd Ei Uchelder Brenhinol Dug Caeredin a'u Huchelderau Brenhinol Tywysog Cymru a Duges Cernyw yn bresennol hefyd.

Yn ystod ei hanerchiad, nododd y Frenhines fod y Pedwerydd Cynulliad newydd yn ddatblygiad sylweddol yn hanes datganoli yng Nghymru, gan fod y Cynulliad wedi esblygu i fod yn ddeddfwrfa yr ymddiriedwyd ynddi i allu deddfu ar bob pwnc yn yr 20 maes datganoledig.

Ar ddiwedd yr agoriad, cynhaliwyd cinio yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, y daeth bron 300 o westeion iddo, gan gynnwys cynrychiolwyr barnwriaeth Cymru a'r Goruchaf Lys, gwesteion Aelodau'r Cynulliad, cynrychiolwyr cymdeithas ddinesig Cymru a llywodraeth leol Cymru, a chynrychiolwyr llysgenhadol.

Mireinio busnes y Pedwerydd Cynulliad

Ac Aelodau'r Cynulliad wedi'u hethol, Llywydd newydd wedi'i phenodi, y Comisiwn ar waith, a strategaeth ar gyfer y Comisiwn wedi'i llunio a oedd yn amlinellu'n glir y blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, dechreuodd y gwaith o fireinio dulliau'r Cynulliad o weithio mewn oes gyfansoddiadol newydd i Gymru.

Mae'r Cyfarfod Llawn wrth wraidd rôl ddemocrataidd y Cynulliad. Yn y Cyfarfod Llawn y bydd yr Aelodau yn dwyn polisiau a gweithredoedd Llywodraeth Cymru i gyfrif, yn craffu ar ddeddfau ac yn cytuno arnynt, ac yn codi materion sydd o bwys ar ran y bobl y maent yn eu cynrychioli. Mae'r Cyfarfod Llawn yn cael ei gynnal yn y Siambr bob wythnos ar brynhawn dydd Mawrth a phrynhawn dydd Mercher, a bydd y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn cadeirio. Cynhaliwyd 57 Cyfarfod Llawn rhwng dechrau'r Pedwerydd Cynulliad ym mis Mai 2011 a mis Mawrth 2012.

Fel rhan o ymrwymiad y Llywydd i sicrhau bod y Cynulliad yn adlewyrchu anghenion pobl Cymru yn well, bu Rosemary Butler AC yn awyddus i edrych ar gyfleoedd newydd i'r Aelodau fynegi materion pwysig sy'n effeithio ar eu hetholwyr, i ddwyn y materion hynny i sylw'r Cynulliad, ac i geisio ymateb gan y Llywodraeth.

Mae wedi neilltuo cyfnodau rheolaidd ar gyfer Dadleuon gan Aelodau Unigol (sef dadleuon a gyflwynir gan Aelod(au) unigol yn hytrach nag ar ran grŵp gwleidyddol). Mae'r rhain yn gynigion sydd â chefnogaeth Aelodau o dair plaid o leiaf, a chânt eu dewis gan y Pwyllgor Busnes i fod yn destun dadl unwaith bob hanner tymor.

Bu'n bosibl cyflwyno'r fenter hon drwy ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, sef rheolau gweithdrefnol y Cynulliad, fel rhan o Adolygiad y Trydydd Cynulliad o'r Rheolau Sefydlog. Daeth y Rheolau Sefydlog newydd i rym ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad.

Yn y Pedwerydd Cynulliad, mae'r Llywydd hefyd wedi neilltuo cyfnod penodol yn ystod Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar gyfer Cwestiynau gan Arweinwyr y Pleidiau. Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr pob un o'r grwpiau gwrthbleidiol (y Ceidwadwyr Cymreig, Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig) yn eu tro i ofyn hyd at dri chwestiwn heb rybudd. Mae hyn yn rhoi iddynt y rhyddid i ofyn unrhyw gwestiwn i'r Prif Weinidog am faterion y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cyflwynwyd 454 o gwestiynau i'r Prif Weinidog. Y cwestiynau i'r Gweinidogion eraill, y Cwnsler Cyffredinol a Chomisiwn y Cynulliad yw'r eitemau cyntaf ar ddydd Mercher.

Caiff Aelodau eu dewis ar hap i gyflwyno cwestiynau bythefnos cyn y sesiwn, ac, fel arfer, bydd 15 cwestiwn i'r Gweinidogion yn ymddangos ar bapur y drefn. Gall Aelodau eraill wneud cais i gael eu galw i ofyn cwestiynau atodol perthnasol i'r Gweinidog yn y Siambr.

Mae'r tabl hwn yn dangos i bwy y gofynnwyd y cwestiynau:

	Nifer y Cwestiynau Llafar a Gyflwynwyd
Y Prif Weinidog	454
Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	115
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau	116
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	113
Y Gweinidog Cyllid	106
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	102
Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth	114
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau	121
Y Cwnsler Cyffredinol	33
Comisiwn y Cynulliad	57

Datganiadau a Dadleuon

Mae gweddill y sesiynau ar ddydd Mawrth yn cynnwys datganiadau a dadleuon y Llywodraeth, gan gynnwys unrhyw fusnes deddfwriaethol sydd gan y Llywodraeth.

Bydd yr Aelodau yn dwyn y Llywodraeth i gyfrif drwy ymateb i'w datganiadau a'i holi ynghylch ei strategaethau a phenderfyniadau o ran polisi. Yn ystod cyfnod penodol bob wythnos, gallant hefyd ofyn i Arweinydd y Tŷ sicrhau bod y Llywodraeth yn gwneud datganiad am bwnc arbennig neu'n cyflwyno mater i'w drafod yn y Cyfarfod Llawn.

Bydd dadleuon yn para am dair awr ar ddydd Mercher fel arfer, ac maent wedi'u neilltuo ar gyfer busnes y Cynulliad (sef unrhyw fusnes nad yw'n fusnes y Llywodraeth). Bydd hyn yn cynnwys dadleuon ar adroddiadau pwyllgor, cynigion ynghylch deddfwriaeth gan Aelodau'r meinciau cefn (nad ydynt yn y Llywodraeth), y Dadleuon Unigol gan Aelodau newydd, ac amser i'r gwrthbleidiau drafod materion o'u dewis hwy.

Yn ystod blwyddyn gyntaf y Pedwerydd Cynulliad, neilltuwyd rhan fwyaf o amser y Cynulliad ar ddydd Mercher i ddadleuon y gwrthbleidiau. Roedd hyn yn anochel i ryw raddau ar ddechrau Cynulliad, gan fod angen sawl mis cyn i lif rheolaidd o adroddiadau pwyllgor ddod i'r amlwg fel y gall y Cynulliad drafod eu casgliadau.

Ar ddiwedd y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mercher, cynhelir y Ddadl Fer, sy'n para 30 munud. Yn ystod y ddadl, gall Aelod Cynulliad siarad am unrhyw bwnc y mae'n ei ddewis, a bydd Gweinidog yn ymateb ar ran Llywodraeth Cymru. Caiff yr Aelod ei ddewis drwy falot a gaiff ei gynnal gan y Llywydd. Yn y Pedwerydd Cynulliad, caiff enwau'r Aelodau llwyddiannus a dyddiadau dros dro eu dadleuon eu cyhoeddi ar wefan y Cynulliad mewn digon o amser cyn eu dadl.

Pwy sy'n penderfynu pa fusnes a gaiff ei gynnal yn y Cyfarfod Llawn?

Rôl y Pwyllgor Busnes yw trafod a phenderfynu ar fusnes y Cyfarfod Llawn. Mae'n cyfarfod yn fuan yn wythnos y Cynulliad – am 08.30 ar ddydd Mawrth. Caiff ei gadeirio gan y Llywydd, a'i aelodau yw Jane Hutt AC, sef Gweinidog y Llywodraeth sy'n gyfrifol am fusnes, ac Arweinydd y Tŷ; a Rheolwr Busnes pob plaid wleidyddol, sef: Peter Black AC (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru), Jocelyn Davies AC (Plaid Cymru), a William Graham AC (Ceidwadwyr Cymreig).

Bydd y Pwyllgor yn trafod unrhyw newidiadau munud olaf i fusnes Cyfarfod Llawn yr wythnos honno, ac yn nodi pa fusnes y mae'r Llywodraeth wedi penderfynu ei drefnu ar gyfer y tair wythnos i ddod; bydd hefyd yn penderfynu'n ffurfiol ynghylch pa eitemau eraill o fusnes a fydd yn cael eu trafod yn y tair wythnos i ddod, gan gynnwys dadleuon y gwrthbleidiau, er enghraifft. Bydd canlyniad y trafodaethau yn cael ei gyhoeddi yn y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes wythnosol, y bydd Arweinydd y Tŷ yn ei wneud ar ôl y Cwestiynau i'r Prif Weinidog bob dydd Mawrth.

Am 10.30, bydd clercod y Cyfarfod Llawn yn cyfarfod â'r Llywydd i roi gwybod iddi am gynnwys agenda cyfarfod y prynhawn hwnnw. Fel arfer, dyma pryd y bydd y Llywydd yn penderfynu ynghylch unrhyw geisiadau a wnaed am Gwestiynau Brys. Caniateir i'r rhain gael eu gofyn os yw'r Llywydd yn fodlon fod angen eu gofyn ar frys a'u bod o bwys i'r cyhoedd. Cafodd 11 Cwestiwn Brys eu caniatáu yng nghyfnod yr adroddiad hwn.

Pwy sy'n penderfynu pwy sy'n cael siarad yn y Cyfarfod Llawn?

Caiff yr holl Aelodau wneud cais i gael siarad yn y Cyfarfod Llawn, a gelwir arnynt yn ôl disgrisiwn y sawl sydd yn y gadair.

Bydd y grwpiau gwleidyddol yn cynnal eu cyfarfodydd wythnosol yn hwyr ar fore dydd Mawrth. Yn y cyfarfodydd hyn, byddant yn trafod eu cyfraniad ym musnes y Cyfarfod Llawn bob wythnos, ymysg materion eraill.



System bwyllgorau mwy effeithiol

Mae craffu ar Lywodraeth Cymru mewn modd cadarn ac effeithiol wrth wraidd gwaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gwneir hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys gofyn cwestiynau llafar, ysgrifenedig a brys i Weinidogion yn y Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o waith craffu y Cynulliad yn cael ei wneud gan bwyllgorau'r Cynulliad.

Bydd y Pwyllgorau yn argymhell ffyrdd y gall polisiâu'r Llywodraeth fod yn fwy cadarn a sut y gall ei gwariant fod yn fwy effeithiol ac effeithlon. Gall pwyllgorau'r Cynulliad ymgysylltu'n rhagweithiol ac arloesol ag unigolion a sefydliadau, sy'n rhoi adborth hynod werthfawr am yr effaith y mae gweithredoedd y Llywodraeth yn ei chael ar fywydau a phrofiadau pobl Cymru.

Ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, gwnaed newidiadau sylweddol i strwythur system bwyllgorau'r Cynulliad.

Yn hytrach na gwahanu'r pwyllgorau ar sail gwaith deddfu a gwaith craffu, ers dechrau'r Pedwerydd Cynulliad, cyflawnodd strwythur bwyllgorau'r Cynulliad rôl ddeuol o graffu ar bolisi a deddfwriaeth. O ganlyniad, gallai Aelodau a oedd ag arbenigedd mewn meysydd polisi arbennig ddefnyddio'r wybodaeth honno yn achos deddfwriaeth, a gallent ddeall yr effeithiau ymarferol y byddai'r ddeddfwriaeth yn ei chael.

Cynlluniwyd y newid hefyd i'w gwneud yn haws i bobl ymgysylltu â phroses graffu'r Cynulliad. O dan y system newydd, gallent gysylltu ag un pwyllgor a oedd yn ystyried polisi a deddfwriaeth, yn hytrach na gorfod cysylltu â phwyllgorau gwahanol a grwpiau gwahanol o Aelodau.

Mantais ychwanegol i'r dull hwn oedd y ffaith ei fod yn rhoi i'r pwyllgorau yr hyblygrwydd i ymdrin â rhannau newydd o'r broses ddeddfwriaethol, gan gynnwys Papurau Gwyn, Biliau drafft, a Biliau.

Mae symleiddio'r system bwyllgorau wedi arwain at sefydlu 11 o bwyllgorau, gan gynnwys pum pwyllgor polisi sy'n ystyried deddfwriaeth a meysydd polisi.

Y pwyllgorau hyn yw: y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, y Pwyllgor Menter a Busnes, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae gan y Cynulliad nifer o bwyllgorau eraill, gan gynnwys y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Deisebau.

Mae'r ffaith bod nifer y pwyllgorau yn y Cynulliad wedi newid yn sicrhau bod gan bob pwyllgor ddigon o amser a hyblygrwydd i ymgymryd â gwaith mwy trwyadl. Dros y flwyddyn ddiwethaf, defnyddiodd y pwyllgorau yr hyblygrwydd hwn mewn ffyrdd newydd ac arloesol, gan gynnwys sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen, naill ai i ystyried pwnc yn fanwl dros gyfnod hir, neu i alluogi grŵp bach o aelodau pwyllgor i gynnal ymchwiliadau byr a oedd yn canolbwyntio ar un pwnc yn unig.

Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sefydlodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ddau is-grŵp i ystyried y newidiadau a gynigiwyd gan yr UE i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Ar ben hynny, cyfarfu nifer o bwyllgorau â grwpiau o randdeiliaid i glywed eu barn am yr hyn a ddylai fod yn flaenoriaethau i'r pwyllgorau. Mae pwyllgorau hefyd wedi ymchwilio i sawl dull o ganfod barn y cyhoedd, gan gynnwys defnyddio arolygon ar-lein, grwpiau ffocws ac ymweliadau â chymunedau i glywed barn pobl leol.

Ym mis Tachwedd, cynhaliwyd trafodaeth gyffredinol rhwng cynrychiolwyr swyddfeydd Cyngor ar Bopeth gogledd Cymru, Aelodau Cynulliad a ddewisiwyd, a chlercod pwyllgorau. Hwyluswyd y digwyddiad gan dîm allgymorth y Cynulliad, a'i nod oedd meithrin dealltwriaeth well o'r Gymru ddatganoledig ymysg cynghorwyr y swyddfeydd Cyngor ar Bopeth, cynrychiolwyr polisi cymdeithasol, rheolwyr ac ymddiriedolwyr, ynghyd â'u galluogi i ddeall sut i ymgysylltu'n effeithiol â'r Cynulliad.

Cyfranogiad yn y Celfyddydau yng Nghymru

Pan glywodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol bryderon gan nifer o gyrff ei bod yn bosibl fod toriadau yn y sector celfyddydau yn cael effaith negyddol ar gyfranogiad yn y celfyddydau yng Nghymru ymysg rhai pobl, sefydlodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gynnal ymchwiliad byr i'r pwnc hwn.

Er mwyn sicrhau y byddai ymchwiliad y grŵp yn targedu'r cynulleidfaoedd cywir, cyfarfu tîm allgymorth y Cynulliad â Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon (BVSNW), Celfyddydau Gwirfoddol Cymru a Chelfyddydau Anabledd Cymru i drafod yr ymchwiliad ac i ofyn eu barn am bwy y dylid siarad â hwy am y pwnc hwn.

Gwnaethant awgrymu amrywiaeth eang o grwpiau y gellid gweithio â hwy, gan gynnwys Cofio, Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf, sef cynhyrchiad theatr dawns atgofus i oedolion hŷn; a Prometheus, sef grŵp celfyddydol yng Nghaernarfon ar gyfer oedolion ifanc ag anawsterau dysgu. Yn ystod y pythefnos hwn, siaradwyd â dros 190 o bobl a oedd yn amrywio yn ôl eu cefndir, eu gallu, eu hoedran a'u rhyw.

Rhoddodd y sesiynau hyn gyfle i'r cyfranogwyr ddweud eu dweud a thrafod materion fel:

- pam yr oeddent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol;
- faint o gyfleoedd oedd ar gael iddynt gymryd rhan yn y celfyddydau yn eu hardal hwy; a
- beth fyddai'n eu helpu i gymryd rhan mewn rhagor o ddigwyddiadau celfyddydol yn y dyfodol.

Dywedodd Leanne Rahman, Swyddog Datblygu'r Celfyddydau yn BVSNW: "Roedd y rhwydwaith wrth ei fodd i gael ei ystyried yng nghyswllt yr ymgynghoriad hwn. Mae neilltuo ychydig o amser ychwanegol ar gyfer cyfarfod yn uniongyrchol â'r bobl yr effeithir arnynt gan benderfyniadau lleol a chenedlaethol yn werthfawr iawn inni, yn enwedig o ystyried y gall nifer o ffactorau fod yn eu rhwystro rhag cymryd rhan. Roedd y grwpiau ffocws yn amrywiol ac yn ymatebol, ac fe'u cynhaliwyd yng nghanol cymunedau. Mae'r bobl a gymerodd ran wedi dweud pa mor falch oeddent i gael mynegi eu teimladau, ac roeddent wedi'u calonogi o wybod y gallai'r teimladau a'r awgrymiadau hynny ddylanwadu'n gadarnhaol ar benderfyniadau'r dyfodol.

"Byddai grwpiau ffocws fel y rhain yn cael croeso mawr unrhyw bryd yn ein rhwydweithiau."

Yn ychwanegol at gynnull grwpiau ffocws, lluniwyd holiaduron mewn amrywiaeth o fformatiau, gan gynnwys holiaduron hawdd eu darllen, a fersiwn ar-lein. Cafwyd ymatebion gan 42 o sefydliadau a 20 o unigolion i'r holiaduron, a oedd yn ychwanegol at y 195 o bobl yr ymgynghorwyd â hwy yn y grwpiau ffocws.

Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

Roedd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am asesu'r effaith yr oedd y gwaith o weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn ei chael ar bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed.

Bu tîm allgymorth y Cynulliad yn cynorthwyo gyda dau ddull o gasglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn: yn gyntaf, drwy gyfrwng holiadur ar-lein a gyhoeddwyd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol, ac, yn ail, drwy waith y tîm allgymorth a'r gwasanaeth addysg gyda grwpiau ledled Cymru.

Cynhaliwyd pum grŵp ffocws gyda chlybiau a chymdeithasau ieuencid ledled Cymru. Rhoddodd hyn gyfle i bobl ifanc gael dweud eu dweud am y Mesur, a sut yr oedd wedi effeithio arnynt hwy. Cymerodd 67 o bobl ifanc ran yn y sesiynau hyn. Cyfarfu'r gwasanaeth addysg â phobl ifanc o 42 o ysgolion a cholegau a oedd â disgyblion yn ystod oedran perthnasol, a chynhaliwyd chwe chylchdaith o'r Senedd ar y pryd hefyd. Drwy hynny, daeth 1,721 o bobl ifanc i wybod am yr ymchwiliad a'r ffaith fod modd iddynt gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, ac o ganlyniad cafwyd 790 o ymatebion i'r holiadur.

Ymgysylltu â Chymru

Mae strategaeth Comisiwn y Cynulliad yn datgan ei ymrwymiad i ymgysylltu'n effeithiol â phobl Cymru ac i hyrwyddo llwyddiannau Cymru yn rhyngwladol. Yr amcan yw creu amgylchedd sy'n meithrin diddordeb a dealltwriaeth yng nghyswllt gwaith y Cynulliad o ddeddfu, craffu a chynrychioli.

Roedd bws allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol yn ganolbwynt i'r Llywydd wrth iddi wneud taith o amgylch Cymru yn ystod y flwyddyn. Cyfarfu â nifer o randdeiliaid ym meysydd materion gwledig ac amgylcheddol yn Sioe Frenhinol Cymru, a chyfarfu hefyd ag ystod o ymwelwyr pan ymwelodd ag Eisteddfod yr Urdd yn Abertawe, yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam, Mardi Gras Caerdydd, a sioe sir Fynwy.

Rhoddodd amserlen brysur yr haf gyfle i'r Llywydd rannu ei gwledigaeth o sicrhau bod y Cynulliad yn ddeddfwrfa fwy hygyrch ac adweithiol. Hefyd, rhoddodd gyfle i Mrs Butler gyflwyno agenda glir i annog rhagor o fenywod i gymryd rhan weithredol ym mywyd dinesig Cymru.

Drwy gydol haf 2011, bu presenoldeb y bws yn bwysig mewn nifer o ddiwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol ledled Cymru, gan ganiatáu i bobl fagu dealltwriaeth well o'r Cynulliad a'i waith.

Defnyddiodd y Pwyllgor Deisebau y bws i gynnal sesiynau galw i mewn yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanfair-ym-Muallt, a chynhaliodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd gyfarfod cyhoeddus yn Sioe Frenhinol Cymru cyn cynnal trafodaeth anffurfiol ar y materion sy'n wynebu cefn gwlad Cymru dros y pum mlynedd nesaf.

Bu timau allgymorth ac addysg y Cynulliad yn gweithio gydag ystod eang o sefydliadau i helpu i sicrhau bod mwy o bobl yn ymgysylltu â'r broses ddemocrataidd. Bu gwaith yn mynd rhagddo gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog yng Ngheredigion ac yng Nghaerfyrddin i ddatblygu rhaglen "Dinesydd Gweithgar".

Cynlluniwyd a threialwyd y cynllun dros gyfnod o 12 mis, a'r amcan oedd datblygu cyfres o fodiwlau dysgu sy'n addas i oedolion ifanc nad ydynt wedi cwblhau addysg ffurfiol. Bydd y modiwlau hyn yn cael eu defnyddio ledled Cymru wrth weithio gydag oedolion ifanc, i'w hannog i ymgysylltu â gwaith y Cynulliad.

Yn y gogledd, cynhaliodd y tîm allgymorth nifer o weithdai mewn partneriaeth â Chymunedau yn Gyntaf a'r Cyngor Gwirfoddol Lleol; yn y gweithdai hyn, cafodd y cyfranogwyr wybodaeth am fynegi materion i'w Haelodau Cynulliad ac am ymgysylltu â'r Cynulliad drwy sianelau fel Pwyllgor Deisebau y Cynulliad.

Roedd gwaith nodedig arall a wnaed gyda rhanddeiliad yn cynnwys menter gyda Phrosiect Datblygu Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro. Cynhaliwyd dau weithdy i roi gwybodaeth am ymgysylltu â'r Cynulliad, ac ynddynt dysgodd y grŵp am rôl y Cynulliad a'i Aelodau. O ganlyniad i'r sesiynau hyn, mae'r grŵp bellach wedi cyflwyno deiseb i'r Cynulliad ynghylch gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru.

Cynnal Digwyddiadau yn y Senedd a'r Pierhead

Yn nes at adref, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau proffil uchel yn y Senedd a'r Pierhead a oedd â'r nod o ddod â democratiaeth yn fyw i'r sawl a aeth iddynt.

Ym mis Hydref, cynhaliwyd yr ail ddigwyddiad mewn cyfres o ddigwyddiadau yr oedd y Cynulliad wedi'u trefnu mewn partneriaeth â Chymdeithas Hansard. Teitl y digwyddiad oedd Pobl Ifanc a Gwleidyddiaeth, ac roedd yn canolbwyntio ar banel o arbenigwyr a oedd yn cynnwys Aelodau Cynulliad a chynrychiolwyr pobl ifanc. Buont yn trafod amryw o faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc a'u perthynas â gwleidyddiaeth a'r system wleidyddol.

Dathlodd y Cynulliad Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod mewn partneriaeth â'r Sefydliad Materion Cymreig, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Sefydliad y Merched a'r Cyngor Prydeinig.

Dechreuodd y diwrnod yn y Pierhead drwy gynnal cyfarfod brecwast o amgylch bwrdd, a gadeiriwyd gan y Llywydd. Wedyn, cynhaliwyd grwpiau trafod a gweithdai yn y Pierhead a lywyddwyd gan Sefydliad y Menywod, a darlith amser cinio gan Tori James, y person ieuengaf o Brydain i ddringo Mynydd Everest, a'r fenyw gyntaf o Gymru i gyflawni'r gamp.

Ym mis Mawrth, pwysleisiwyd natur hollol ddemocrataidd y Cynulliad Cenedlaethol. O fewn wythnos, roedd y Cynulliad wedi cynnal darlith gyhoeddus gan Dr Rowan Williams, Archesgob Caergaint, am yr hyn sy'n gwneud cymdeithas yn gymuned. Saith niwrnod yn unig cyn hynny, roedd bloeddiadau buddugoliaethus dros 8,000 o gefnogwyr rygbi wedi diasbedain drwy'r adeilad; roeddent oll wedi dod i'r Cynulliad i roi croeso brwdfrydig i dîm rygbi Cymru ar ôl iddo ennill y Gamp Lawn, pan fu mewn derbyniad swyddogol o dan ofal Rosemary Butler, y Llywydd.

Mynd â'r Cynulliad i'r byd

Un o'r amcanion a bennwyd gan Gomisiwn y Cynulliad yw manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd yn y DU a thramor i hybu Cymru a gwaith y Cynulliad, ac i chwarae rhan yn y gwaith o ddatblygu democratiaeth seneddol mewn mannau eraill yn y byd.

O ganlyniad, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi parhau i ymgysylltu â deddfwrfeydd eraill dros y flwyddyn ddiwethaf, gan rannu arferion da a thynnu sylw at ddemocratiaeth Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.


Rydym wedi croesawu urddasolion rhyngwladol, Llysgenhadon, Uchel Gomisiynwyr a dirprwyaethau seneddol a oedd yn cynrychioli nifer o wledydd a sefydliadau, gan gynnwys Awstralia, Twrci, y Weriniaeth Tsiec, Rwsia, Lesotho, Canada, Denmarc, Fflandrys, Singapôr, Israel, Brasil a'r Cyngor Prydeinig.

Ar ben hynny, cynrychiolwyd y Cynulliad gan Aelodau unigol a dirprwyaethau mewn ystod eang o gyfarfodydd, seminarau, a chynadleddau rhyngwladol, ac mewn ymweliadau allannol eraill, gan gynnwys cynadleddau Cyfarfod Llawn y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig yng Nghorc a Brighton; cynhadledd flynyddol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) yn Llundain; Seminar Seneddol Canada; a'r ymweliad i Dde Affrica a noddwyd gan gangen Cymru o'r CPA.

Mae'r Cynulliad hefyd wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau rhyngwladol nodedig dros y flwyddyn ddiwethaf, a oedd wedi'u cynllunio i dynnu sylw at lwyddiannau'r Cynulliad. Cynhaliodd y Dirprwy Lywydd, David Melding, dderbyniad yn y Senedd i nodi dechrau Llywyddiaeth Denmarc ar Gyngor yr UE, yng nghwmni Anne Hendensted Steffensen, Llysgennad Denmarc.

Digwyddiad nodedig arall oedd Dadl Ryngwladol Pobl Ifanc, a noddwyd gan gangen Cymru o'r CPA. Yn y digwyddiad hwn, daeth dros 50 o fyfyrwr ifanc o Gymru a myfyrwr rhyngwladol ynghyd i drafod thema'r Gymanwlad eleni, sef "Cysylltu Diwylliannau".

I gael gwybodaeth fwy manwl ac adroddiadau am gysylltiadau rhyngwladol y Cynulliad, ewch i'n tudalennau gwe ynghylch cysylltiadau rhyngwladol.



Ym mis Ionawr 2012, croesawodd y Senedd y miliynfed ymwelydd ers i'r adeilad gael ei agor yn swyddogol gan Ei Mawrhydi y Frenhines ar Ddydd Gŵyl Dewi yn 2006. Bu Rosemary Butler AC, Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn cyfarch Samantha Hailes o Gaerdydd; cyflwynwyd tystysgrif i Samantha a bu ar gylchdaith o amgylch yr adeilad.

Y flwyddyn mewn ffigurau

89,231

Nifer yr ymwelwyr i'r Senedd rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2012

5,249

Nifer yr ymwelwyr a fu'n gwyllo'r Cyfarfod Llawn yn yr un cyfnod

982

Nifer yr ymwelwyr a fu'n gwyllo cyfarfodydd pwyllgor

4,846

Nifer y cylchdeithiau nad oeddent wedi'u trefnu o flaen llaw a roddwyd i ymwelwyr i'r Senedd

188

Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd ar ystâd y Cynulliad

13,381

Cyfanswm nifer y gwesteion a groesawyd i ddigwyddiadau

Dull newydd o lywodraethu ac archwilio

Sefydlwyd y Gwasanaeth Llywodraethu ac Archwilio ar ddechrau 2011 i ddatblygu, cefnogi a monitro llywodraethu da yn y Cynulliad. Erbyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad, bwriedir y bydd egwyddorion llywodraethu allweddol a phrosesau synhwyrol yng nghyswllt caffael, contractau a rheoli prosiectau wedi'u hymgorffori ar draws y sefydliad.

Un o rolau allweddol y Gwasanaeth yw'r gwaith y mae'n ei wneud i gefnogi Datganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu, sy'n ymddangos gyda chyfrifon y Cynulliad.

Mae'r datganiad yn rhoi manylion y dulliau gweithredu sy'n rhoi sicrwydd ynghylch cydymffurfio, ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac effeithiolrwydd yng nghyswllt rheolaethau mewnol y Cynulliad. Mae hefyd yn cynnwys y prosesau sy'n llywio'r gwaith o baratoir datganiad blynyddol.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cefnogi llywodraethu da drwy ystod o weithgareddau eraill, gan gynnwys sicrhau bod dull o fonitro a rheoli risg wedi'i ymgorffori yng ngwaith y Cynulliad.

Gall y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu gael ffydd yn y modd y mae'r sefydliad yn ymgymryd â'i fusnes drwy'r prosesau archwilio mewnol cadarn hefyd. Mae hyn yn rhoi safbwynt annibynnol a barn wrthrychol ynghylch rheoli risg, rheolaeth, a llywodraethu. Caiff hyn ei wneud drwy gynnal ymchwiliadau a gwerthusiadau annibynnol ynghylch effeithiolrwydd Comisiwn y Cynulliad o ran cyflawni'r amcanion a bennwyd ar gyfer y sefydliad.

Hefyd, mae'r Comisiwn wedi sefydlu Pwyllgor Taliadau, sef corff ymgynghorol nad oes ganddo bwerau gweithredol, i ystyried a gwneud argymhellion ynghylch materion yn ymwneud â thaliadau a thelerau gwasanaeth Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyfarfu'r Pwyllgor dair gwaith yn ystod 2011-12, a chafwyd cyfradd bresenoldeb o 100%.

Daw sicrwydd pellach o Bwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad, sy'n cynnwys Angela Burns AC yn ei rôl yn Gomisiynydd i'r Cynulliad, a thri chynghorydd annibynnol: Richard Calvert (y Cadeirydd), Tim Knighton, a'r Athro Robert Pickard. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn darparu cyngor annibynnol, 'her' a chymorth i'r Prif Weithredwr yn ei rôl yn Swyddog Cyfrifyddu. Bydd y Pwyllgor, sy'n cwrdd bum gwaith bob blwyddyn, yn ystyried ystod eang o faterion, gan gynnwys Cynllun Archwilio Mewnol y Comisiwn, ei ddull gweithredu yng nghyswllt llywodraethu corfforaethol a rheoli risg, a'i bolisiâu gwrth-dwyll a chwythu'r chwiban. Bydd y Pwyllgor hefyd yn rhoi sicrwydd i'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Cynhaliwyd pum cyfarfod o'r Pwyllgor yn 2011-12. Dyma'r manylion ynghylch presenoldeb:

Aelod y Pwyllgor	Nifer y cyfarfodydd yr aethpwyd iddynt
Richard Calvert (Cadeirydd)	5
Tim Knighton	5
Robert Pickard	4
William Graham*	1
Angela Burns*	3

*Roedd William Graham yn aelod o'r Pwyllgor ar adeg un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn unig, ac roedd Angela Burns yn aelod ar adeg tri chyfarfod.

Ochr yn ochr â'r gweithredoedd hyn sydd â chyswllt uniongyrchol â llywodraethu, mae'r tîm Llywodraethu ac Archwilio yn gyfrifol am weithredu Rhaglen Fuddsoddi'r Cynulliad ac am ddatblygu technegau a sgiliau rheoli prosiectau yn y Cynulliad. Mae hefyd yn gyfrifol am ddatblygu Caffael a Rheoli Contractau yn y Cynulliad.

Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol hefyd am nifer o weithredoedd eraill sy'n cefnogi llywodraethu da. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth;
- Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data;
- Rheoli Perfformiad y Cynulliad;
- Rheoli Rhaglen Fuddsoddi'r Cynulliad;
- Dadansoddi Busnes, Caffael a Rheoli Contractau; a
- Cydraddoldebau a Mynediad.

Yr adroddiad ar gynaliadwyedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012

O dan Adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyletswydd gyfreithiol i fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy yn ei holl waith.

Gan fod y Cynulliad yn sefydliad blaenllaw yn y sector cyhoeddus, mae gennym rôl hefyd yng nghyswllt hyrwyddo datblygu cynaliadwy a sicrhau bod ein gweithrediadau'n cael yr effaith leiaf ar yr amgylchedd. Yn 2009, dechreuodd y Cynulliad weithio tuag at ddod yn sefydliad carbon isel erbyn 2015. Mae ein gweledigaeth yn nodi'r uchelgeisiau allweddol mewn perthynas â chynaliadwyedd gweithredol, sydd wedi'u seilio ar y ffyrdd gwahanol yr ydym yn effeithio ar yr amgylchedd: gostyngiad o 40 y cant mewn allyriadau ynni; gostyngiad o 15 y cant mewn allyriadau a gynhyrchir drwy deithio ar fusnes; sicrhau bod adeiladau'r Cynulliad yn effeithlon; a chael diwylliant gweithio cyfrifol. Gan fod 76 y cant o'r allyriadau a gofnodwyd gennym yn deillio o'r defnydd a wneir o drydan a nwy, mae lleihau'r defnydd a wneir o ynni yn gonglfaen i'n strategaeth ar gynaliadwyedd.

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i fod yn sefydliad agored a thryloyw, ac rydym wedi cyhoeddi data ynghylch ein perfformiad ym maes cynaliadwyedd er 2007/08. Rydym yn mesur ac yn cyhoeddi'r data ynghylch ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr drwy gyfrwng Adroddiad Amgylcheddol Blyneddol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i wneud cynnydd da yn erbyn ein targedau ynghylch cynaliadwyedd, drwy gyfuniad o fuddsoddi parhaus yn ein hadeiladau, rheolaethau gwell, a mwy o ymwybyddiaeth.

Gwobrwyon cynaliadwyedd

Daethom yn ail drwy bleidlais yng nghategori'r Sefydliad Mwyaf Cynaliadwy yn y Sector Cyhoeddus yng Ngwobrwyon Cynaliadwyedd y Sector Cyhoeddus yn 2011.

Ardystiad ynghylch rheoli amgylcheddol

Gwnaethom lwyddo i aros ar Lefel 5 (sef y lefel uchaf bosibl) Safon Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd, a hynny am y bumed flwyddyn yn olynol.

Ein hôl troed carbon

Rydym wedi pennu targed i leihau ein hallyriadau carbon 3 y cant bob blwyddyn. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, rydym wedi sicrhau gostyngiad o 8 y cant yn ein hallyriadau cyffredinol. A chaniatáu ar gyfer gwelliannau mewn dulliau casglu data, y ffaith i setiau data newydd gael eu hychwanegu eleni, a rhai achosion o gynnydd mewn allyriadau o ganlyniad i anghenion busnes yn newid, rydym er hyn wedi llwyddo i leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr 1 y cant. Mae'r wybodaeth a ganlyn yn rhoi crynodeb o'n prif lwyddiannau.

Carbon ac ynni

Gwnaethom leihau ein hallyriadau ynni cyffredinol 9 y cant, gan ragori ar ein targed blynyddol, sef 8 y cant. O gronni'r gostyngiadau, bu gostyngiad o 24 y cant dros y pedair blynedd diwethaf.

- Gwnaethom ddefnyddio'r boeler biomas yn y Senedd yn y modd gorau posibl; o ganlyniad, roedd yn gyfrifol am 89 y cant o'r holl adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gwresogi.
- Rydym wedi llwyddo i leihau allyriadau nwy 48 y cant dros y pedair blynedd diwethaf.

Teithio

Bu cynnydd o 59 y cant yn nifer y milltiroedd a deithir; fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn cynnwys teithio gan Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad am y tro cyntaf. Mae hyn yn gyfrifol am bron hanner y cynnydd.

- Er gwaethaf y cynnydd hwn, rydym wedi llwyddo i leihau allyriadau teithio 37 y cant yn y cyfnod hyd at eleni. Rydym yn dal ar y trywydd iawn i gyflawni ein nod o leihau allyriadau 15 y cant erbyn 2015.
- Gwnaethom gynyddu ein defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer teithio ar fusnes 92 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Gwnaethom leihau cyfartaledd allyriadau ein ceir llog i 131g/ CO2.

Gwastraff

Cynyddodd cyfanswm y gwastraff 16 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, systemau casglu data gwell sy'n gyfrifol am hyn yn bennaf.

- Gwnaethom gynyddu ein cyfradd ailgylchu 25 y cant, a chaiff 73 y cant o'r holl wastraff a gynhyrchir ei ailgylchu. Mae hon yn duedd barhaus wrth i ni wella'n cyfleusterau a'n gweithredoedd mewn perthynas ag ailgylchu. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys cynnydd o 65 y cant yng nghyfanswm y gwastraff bwyd a gaiff ei gompostio.
- Gwnaethom leihau faint o wastraff yr ydym yn ei anfon i safleoedd tirlenwi 6 y cant, gan ragori ar ein targed blynyddol, sef 5 y cant.

Dŵr

Bu cynnydd o 3 y cant yn y defnydd a wneir o ddŵr o'r prif gyflenwad dros y flwyddyn ddiwethaf, yn bennaf oherwydd y gwaith o lanhau bricwaith Tŷ Hywel yn drwyadl. Am y drydedd flwyddyn yn olynol, rydym wedi llwyddo i gasglu dŵr glaw gan beri iddo gyflenwi tua 60 y cant o'r dŵr sydd ei angen yn y Senedd.

System rheoli amgylcheddol

Defnyddir system rheoli amgylcheddol ardystiedig y Cynulliad i reoli a lleihau'r effaith yr ydym yn ei chael ar yr amgylchedd, ac i gasglu a chofnodi pob darn o ddata amgylcheddol. Y system hon sy'n bennaf cyfrifol am ysgogi'r gwaith o leihau allyriadau carbon.

Rydym yn parhau i wella'r rheolaethau mewnol ac ansawdd a chywirdeb y data, drwy arolygon parhaus, archwiliadau mewnol ac allanol, ac asesiadau gwirio a gynhelir gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Ynghylch ein data

Caiff y ffigurau ynghylch allyriadau yn yr adroddiad hwn eu cyfrifo drwy ddefnyddio Ffactorau Trosi 2011 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), sy'n berthnasol i'r DU yn unig. Er cysondeb, mae ffigurau eleni a ffigurau'r ddwy flynedd flaenorol wedi'u diweddarau drwy ddefnyddio ffactorau trosi 2011, i'w gwneud yn bosibl cymharu perfformiad yn gywir.

Bob blwyddyn, rydym yn ymdrechu i wella ansawdd a hygyrdd y data ynghylch ein perfformiad ym maes cynaliadwyedd drwy ddatblygu dulliau cadarn o gasglu data, er mwyn dangos ein hymrwymiad i gyflwyno adroddiadau clir ar yr holl ffyrdd yr ydym yn effeithio ar yr amgylchedd. Yn ystod 2011, roedd gwelliannau i'n systemau data yn golygu bod modd i ni gynnwys teithiau ar fusnes gan Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad am y tro cyntaf. Nid oedd y data hyn ar gael mewn blynyddoedd blaenorol. Bu hefyd welliannau yn y modd y cesglir data ynghylch gwastraff ac ailgylchu.



Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr		2009/10	2010/11	2011/12
Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tCO2e)	Cyfanswm yr allyriadau crynswth-cwmpas 1	353	357	295
	Cyfanswm yr allyriadau crynswth-cwmpas 2	2,061	1,908	1,766
	Cyfanswm yr allyriadau crynswth-cwmpas 3	279	368	551
	Cyfanswm yr allyriadau crynswth	2,693	2,633	2,612
	Gwariant ar wrthbwysiadau ardystiedig (e.e. Cronfa Gwrthbwyso Carbon y Llywodraeth)	£0	£0	£0
Dangosyddion ariannol (£)	Gwariant Crynswth yng nghyswllt yr Ymrwymiad i Leihau Allyriadau Carbon	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Y defnydd o ynni ¹				
Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (oriau cilowat)	Trydan (anadnewyddadwy) (oriau cilowat)	3,927,779	3,531,358	3,217,522
	Nwy (oriau cilowat)	1,882,864	1,563,475	1,217,226
	Biomass (adnewyddadwy) (oriau cilowat)	164,220	480,480	885,000
Dangosyddion ariannol (£)	Cyfanswm y gwariant ar ynni²	£467,799	£404,218	£451,835

Teithio swyddogol ³				
Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (milltiroedd)	Teithio ar fusnes	670,700	533,452	848,774
	Ceir y mae'r Cynulliad yn berchen arnynt, a cheir wedi'u llogi	19,013	33,454	36,434
Dangosyddion ariannol (£)	Gwariant ar deithio ar fusnes swyddogol	£242,074	£179,700	£307,271

Gwastraff ⁴				
Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tunelli)	Cyfanswm y gwastraff	47.5	133.3	154.6
	Tirlenwi	15.9	42.6	6.1
	Wedi'i ailgylchu/wedi'i aildefnyddio	32	91	114.6
	Wedi'i losgi/wedi'i droi'n ynni	0	0	0
Dangosyddion ariannol (£)	Gwariant ar waredu gwastraff	£4,716	£15,512	£32,847

Y Defnydd o Ddŵr ⁵				
Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (m3)	Y defnydd o ddŵr			
	Y ddŵr a gyflenwyd	7,918	7,446	7,669
	Y ddŵr a gasglwyd	788	737	747
Dangosyddion ariannol (£)	Costau'r cyflenwad a charthffosiaeth	£23,320	£21,922	£22,561

Troednodiadau

Mae'r wybodaeth uchod wedi'i datblygu ar gyfer ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn unol â Chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi ynghylch Cyflwyno Adroddiadau ar Gynaliadwyedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12. Lle y bo'n bosibl, caiff allyriadau'r ystâd weinyddol graidd yn unig eu nodi, gan gynnwys swyddfa Bae Colwyn, y mae gennym reolaeth ariannol uniongyrchol drosti. Ceir crynodeb llawn o'n perfformiad amgylcheddol yn Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol y Cynulliad.

Caiff yr holl allyriadau eu cyfrifo drwy ddefnyddio'r gyfres ddiweddaraf (2011) o Ffactorau Trosi Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ar gyfer cyflwyno adroddiadau yng nghyd-destun nwyon tŷ gwydr.

Caiff yr holl ddata ynghylch gweithrediadau eu trosi yn gilogramau o garbon deuocsid a'i gyfatebol (CO₂e) at ddibenion adrodd. Mae CO₂e yn uned fesur gyffredinol sy'n ei gwneud yn bosibl cymharu potensial cynhesu byd-eang nwyon tŷ gwydr gwahanol.

¹Caiff amcangyfrifon o'r costau a'r defnydd o nwy a thrydan yn swyddfa Bae Colwyn eu cynnwys; maent wedi'u seilio ar filiau a lunnir drwy fesurydd, sydd wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng yr holl denantiaid.

²Mae hefyd yn cynnwys costau trydan ac aerdymheru ar gyfer 'fferm weinyddwyr' oddi ar y safle er 2010.

³Mae data ynghylch teithio Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad wedi'u casglu a'u cynnwys am y tro cyntaf yn 2011/12.

⁴Mae cyfanswm y ffigurau ynghylch gwastraff ar gyfer 2009/10 yn cynnwys chwe mis o'r flwyddyn yn unig. Mae'r data ynghylch gwastraff yn cynnwys ystâd Bae Caerdydd yn unig.

⁵Mae'r data ynghylch dŵr yn cynnwys ystâd Bae Caerdydd yn unig.

Edrych i'r dyfodol

Wrth inni weithio tuag at ein targedau ar gyfer 2015, byddwn yn parhau i ymdrechu i leihau'r defnydd a wneir o adnoddau, a lleihau'r allyriadau carbon a ddaw o'n hadeiladau a'r rheini a gaiff eu creu drwy ein gweithrediadau a theithio. Byddwn yn agored, yn dryloyw ac yn arloesol wrth geisio canfod rhagor o fentrau a all gyfrannu at wella ein perfformiad, sicrhau bod pawb sy'n defnyddio'r adeilad yn cymryd mwy o ran, sicrhau'r rheolaethau gorau posibl ar gyfer yr adeilad, ac at adroddiadau estynedig i roi cyfrif am berfformiad ein cadwyn gyflenwi. Byddwn yn sicrhau bod cynaliadwyedd yn cael sylw teg mewn penderfyniadau busnes, gan ystyried risgiau a chyfleoedd, sicrhau gwerth, a sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau cymorth o'r radd flaenaf.

Ein nod yw parhau i ddatblygu ar sail ein llwyddiannau, gan sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn parhau i fod yn thema allweddol yn ein gwaith, ymgorffori diwylliant dyfeisgar sy'n adlewyrchu ein bwriad i arwain ym maes cynaliadwyedd, a darparu cyfeiriad clir i'n galluogi i gyflawni'r nod yr ydym yn ymgynraedd ato ar gyfer 2015.

